Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Uwch-swyddog Ymchwil - Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Yr Ysgol Feddygaeth** |
| **Cyflog:** | **Gradd 9: £47,389 – £56,535 y flwyddyn** |
| **Oriau gwaith:** | **Amser Llawn - 1 swydd CALl** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Rôl am gyfnod penodol o ddwy flynedd yw hon** |
| **Lleoliad:** | **Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Datblygu rhaglen ymchwil sy'n canolbwyntio ar y mecanweithiau sy'n sail i wahaniaethau fesul rhyw o ran clefyd y galon.<br>2. Gwella capasiti ymchwil drawsfudol  Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd gan gysylltu saernïaeth gamweithredol ar lefel foleciwlaidd, gellol a'r meinwe â tharddiad clefyd myocardiaidd mewn dynion a menywod.<br>3. Llunio a gweithredu ymagweddau arloesol i astudio meinwe dynol sy'n hysbysu dulliau newydd ar gyfer dylunio cyffuriau'r genhedlaeth nesaf i fynd i'r afael ag anhwylderau cyhyrol.<br>4. Meithrin tîm ymchwil amlddisgyblaethol sy'n cyd-fynd â ffocws y gwyddorau cardiofasgwlaidd ym Mhrifysgol Abertawe a'i Bwrdd Iechyd perthynol.<br>5. Cefnogi Rhwydwaith Cenedlaethol Ymchwil Gardiofasgwlaidd i wreiddio arbenigedd ymchwil, cydweithredu ffyniannus ar draws canolfannau, dilyniant gyrfa a mentoriaeth fel gweithgareddau craidd y Rhwydwaith. |
| | 6. Ysgogi ac ymgymryd ag ymchwil mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau, dangos lefel o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil honno.<br>7. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.  Mae ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig rhai sydd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu gyhoeddiadau cymharol, yn rhan hanfodol o'r rôl.  Ar y radd hon, bydd yn ofynnol i chi gyhoeddi nifer sylweddol o bapurau fel y prif awdur.<br>8. Nodi ffynonellau allanol o gyllid i gynnal eich gwaith eich hun a gwaith eraill yn y Gyfadran a chyflwyno ceisiadau am y cyllid hwnnw.  Bydd rhan hanfodol o'r gwaith yn cynnwys cyflwyno ceisiadau am gyllid ymchwil allanol ar eich liwt eich hun, lle y caniateir hyn, neu arwain y broses o lunio'r cais lle na chaniateir i chi wneud hyn.<br>9. Meddu ar lefel uchel o gymhelliant a'r gallu i ddefnyddio'ch menter a'ch sgiliau datrys problemau i bennu rhaglenni a methodolegau ymchwil ar y cyd â'ch cydweithwyr neu Bennaeth y Gyfadran ac eraill yn y Brifysgol a'r tu allan iddi.<br>10. Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol, a datblygu rhwydweithiau o'r fath, er mwyn meithrin enw da personol, nodi ffynonellau cyllid, creu incwm, sicrhau prosiectau ymgynghori neu feithrin perthnasoedd proffesiynol.<br>11. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n ddidrafferth, a helpu i gynyddu ei phroffil allanol yn y ddisgyblaeth.<br>12. Rheoli, cyfarwyddo neu oruchwylio gwaith eraill, er enghraifft mewn timau ymchwil neu brosiectau.<br>13. Cyfrannu at raglenni dysgu ac addysgu yn y Gyfadran a goruchwylio myfyrwyr ôl-raddedig neu fyfyrwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau ymchwil yn ôl yr angen.<br>14. Sicrhau eich bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y ddisgyblaeth, o ran eu harwyddocâd penodol a chyd-destun ehangach y datblygiadau hyn.<br>15. Yn ôl y gofyn, gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau, gan achub ar y cyfle i ehangu'ch profiad a'ch proffil proffesiynol.<br>16. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, arfarnu ac adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi. |

| | |
|---|---|
| | 17. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion HEI a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/y Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith.<br>18. Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil neu weinyddol eraill neu ymgymryd â'r fath weithgareddau sy'n briodol i'ch profiad a'ch sgiliau, yn ôl cyfarwyddyd Pennaeth y Gyfadran/Sefydliad neu unrhyw un arall a ddirprwyir i weithredu â'i awdurdod. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 19. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>20. Ymgymryd â'r rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>21. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>22. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. Cofnod academaidd ardderchog gan gynnwys PhD mewn gwyddor gardiofasgwlaidd<br>2. Profiad ôl-ddoethurol mewn amgylchedd labordy amlddisgyblaethol, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio meinweoedd dynol<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i ddyfeisio agweddau arloesol ar gyfer dadansoddi manwl o nodweddion samplau meinweoedd calon dynol (e.e., bioleg sianel ïonau, delweddu calsiwm)<br>4. Cofnod o archwilio'r sail fecanistig o wahaniaethau rhwng y rhywiau sy'n sail i glefyd myocardiaidd<br>5. Rhwydwaith sefydledig o gydweithwyr sy'n gallu cyfoethogi a chefnogi eich gweledigaeth ymchwil<br>6. Taflwybr gyrfa sy'n cyd-fynd â cheisio dyfarniadau cyllid allanol personol (e.e, Cymrodoriaethau) yn y dyfodol agos.<br>7. Sgiliau cyfathrebu cryf a'r gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth i ystod o randdeiliaid gan ddefnyddio iaith a delweddau sy'n briodol i'r gynulleidfa.<br>8. Dangos hanes helaeth o gyhoeddi, yn enwedig fel y prif awdur.<br>9. Tystiolaeth o gyflwyno ceisiadau'n annibynnol am gyllid ymchwil allanol neu arwain y broses o lunio cais.<br>10. Y gallu i ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil.<br>11. Profiad blaenorol o addysgu neu o ddarparu cymorth dysgu neu dystiolaeth o'r gallu i ymgymryd â hyn.<br>12. Sgiliau rheoli prosiect a phrofiad o reoli prosiect ymchwil a phrosesau labordy (e.e., gweithdrefnau gweithredu safonol, amserlenni ar gyfer offer)<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>13. Gwybodaeth ardderchog am y rhyngwyneb clinigol-labordy sy'n ymwneud â heterogenedd meinwe/sampl<br>14. Datblygu proffil rhyngwladol fel ymchwilydd cardiofasgwlaidd annibynnol<br>15. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig<br>16. Tystiolaeth o ymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Christopher George e-bost: christopher.george@abertawe.ac.uk |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN
Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall
CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH